



Ein Treftadaeth
Our Heritage



DILYNWCH Y STORI: Dowch o hyd i fwy am fywyd y chwarelwyr a'u teuluoedd yng ngogledd Cymru drwy ymweld â **Chae'r Gors**, cartref plentyndod yr awdures Kate Roberts yn Rhosgadfan ger Caernarfon, sydd nawr dan ofal Cadw.

Symud Mynyddoedd!

Mynd am dro o amgylch tirwedd Llanberis

Hyd: 1½ awr - Cerdded Cymedrol

Dechreuwch ym maes parcio **Parc Gwledig Padarn (1)** cod post LL55 4TY. Yn uchel uwch eich pen mae llechi a gwastraff Chwarel Dinorwig, unwaith yn un o chwareli llechi mwyaf yn y byd. Yn y 19 ganrif roedd yn cyflogi 3000 o dynion oedd yn cynhyrchu 100,000 o dunelli o lechi bob blwyddyn.

Gan gadw'r rheilffordd ar y dde cerddwch i fyny 'r llwybr penodedig ac i fyny grisiau i **Ysbyty'r Chwarel (2)**. Wedi ei hagor yn y 1860au roedd yr ysbyty yn darparu gofal meddygol i chwarelwyr. Erbyn hyn mae ar agor i'r cyhoedd ac mae yma arddangosfa o offer arloesol yr arferid ei ddefnyddio yno, gan gynnwys offer torri rhan o'r corff i ffwrdd a pheiriant pelydr X.

O'r fan hon dilynwch y ffordd heibio twll anferth **Chwarel Lechi Vivian (3)** sydd bellach dan ddŵr. Wedi dychwelyd i'r maes parcio gallwch ymweld a'r chwarel, ac edrych am ddringwyr creigiau a phlymwy yn dilyn eu gwahanol fathau o chwaraeon lle y bu chwarelwyr unwaith yn ennill eu bywoliaeth.

Wedi i chi ddychwelyd byddwch yn ôl wrth ymyl gorsaf **Rheilffordd Llyn Llanberis (4)** yn Gilfach Ddu. Mae'r rheilffordd bresennol yn dilyn y lein wreiddiol yn y 1840au oedd wedi ei hadeiladu i gludo llechi o'r chwarel i borthladd Felinheli.

Ers 1972, bu Parc Gwledig Padarn yn gartref i'r **Amgueddfa Lechi Cymru (5)** wedi ei leoli ble cynt roedd pencadlys peirianyddol Chwarel Dinorwig. Mae mynediad yn rhad ac am ddim a chadwch eich llygaid yn agored am y sesiynau sy'n dangos sut i hollti llechi.

Wedi gadael yr amgueddfa, trowch i'r dde am **Gastell Dolbadarn (6)** a adeiladwyd gan Llywelyn Fawr.

O gyrraedd y briffordd byddwch yn gweld **Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa (7)**. Dowch â'r ymweliad i ben wrth fynd i ganolfan ymwelwyr y **Mynydd Gwefru (8)** a mynd ar daith o amgylch yr orsaf ynni. Mae hefyd arddangosfa 'Ein Treftadaeth' yma.



Amgueddfa Lechi Cymru © Ein Treftadaeth



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014

Mae "Ein Treftadaeth" yn rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhagor o gefnogaeth drwy Gyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.